



UMPA

Cyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

15 Mai 2015

Ystafell Bwyllgor

Presennol:

Jacob Dafydd Ellis (JDE) – Llywydd UMPA, Cadeirydd ac Ymddiriedolwr
Grace Burton (GB) – Swyddog Addysg Myfyrwyr UMPA, Dirprwy Gadeirydd ac Ymddiriedolwr
Will Atkinson (WA) – Swyddog Lles Myfyrwyr UMPA ac Ymddiriedolwr
Harriet O'Shea (HO) – Swyddog Gweithgareddau Myfyrwyr UMPA ac Ymddiriedolwr
Estelle Hart (EH) – Ymddiriedolwr Allanol UMPA
Peter Curran (PC) – Ymddiriedolwr Allanol UMPA
Sam Bache (SB) – Ymddiriedolwr Israddedig UMPA
John Glasby (JG) – Prif Weithredwr UMPA
Andrew Morwood (AM) – Rheolwr Gwasanaethau'r Aelodaeth UMPA

Skype:

Catrin Hopkins (CH) – Swyddog Cyllid UMPA (ar gyfer yr adran Gyllid yn unig)

Yn gwasanaethu:

Annmarie Evans – Cynorthwydd Gweithredol i Fwrdd UMPA
Lewis Donnelly – Llywydd Etholedig UMPA (fel sylwedydd yn unig)
Kelly Keat – Swyddog Gweithgareddau Etholedig UMPA (fel sylwedydd yn unig)
Lauren Marks – Swyddog Addysg Etholedig UMPA (fel sylwedydd yn unig)

1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Miriam Williams – Swyddog Materion Cymreig UMPA, Llywydd UMCA ac Ymddiriedolwr
Shaun Bailey – Ymddiriedolwr Ôl-raddedig UMPA

2. Datganiadau o Fuddiannau

Dim

3. Busnes y Cadeirydd

Darparodd JDE y Bwrdd â'r diweddaraf o ran ei bryderon ynglŷn â'r ffaith na fu modd i ni gwblhau'r cynllun gweithredu a ofynnwyd amdano gan y Brifysgol, oherwydd y bu rhaid i ni aros am wybodaeth gan adrannau'r Brifysgol. Hefyd hysbysodd y Bwrdd mai dim ond 56 o geisiadau amodol ddaeth i law hyd yma, sydd ymhell iawn o'r 200 sydd eu hangen.

Holwyd cwestiynau ynglŷn ag unrhyw risg ariannol a beth fyddai'r risg o ran enw da mudiad y myfyrwyr pe bai'r prosiect hwn yn methu. Esboniodd ei fod wedi gwneud y sefyllfa'n berffaith glir na chaiff unrhyw gefnogaeth ei darparu ar gyfer y prosiect hwn allan o'r grant bloc cyfredol. Aeth JDE ymlaen i esbonio bod y Brifysgol yn eglur o ran y ffaith eu bod yn disgwyl i'r gwasanaeth hwn gael ei ddarparu, a bydd yn rhoi rhagwybodaeth i'r Llywydd Etholedig er mwyn sicrhau ei fod yn cadw golwg fanwl ar hyn.

Nodwyd

Pwysleisiodd JDE bwysigrwydd cyfrinachedd, ac esboniodd, oherwydd natur gyfrinachol rhai o'r eitemau ar yr agenda, y byddai gofyn i aelodau staff adael yr ystafell.

Nodwyd

Darparodd JDE y diweddaraf ar y diffyg cyfathrebu a phresenoldeb gwael ein Hymddiriedolwr Ôl-raddedig, Shaun Bailey. Cynhaliwyd trafodaeth ynglŷn â'r ffordd orau ymlaen, a chytunodd y Bwrdd y byddai'r Cadeirydd yn cynnal cyfarfod â Shaun Bailey i drafod unrhyw anawsterau a all Shaun fod yn eu hwynebu, ac i'w atgoffa o bwysigrwydd y rôl a'r disgwyliadau sydd ynghlwm mewn bod yn Ymddiriedolwr.

Gweithredu - JDE

Nododd JDE bod yr amser ymateb cyffredinol i Gynorthwyydd y Pwyllgor Gwaith wedi bod yn wael, ac y dylai pob Ymddiriedolwr wneud ymdrech i wella ar hyn.

Nodwyd

Darparodd JDE y Bwrdd â'r datblygiadau diweddaraf ers ymchwiliad yr Undeb Rygbi. Esboniodd fod enwau wedi cael eu pasio ymlaen i'r Brifysgol, ond ar ôl cwrdd â Swyddog Ymchwilio'r Brifysgol, mae'r Brifysgol wedi penderfynu nad oes digon o dystiolaeth i fwrw ymlaen â'r achos hwn. Serch hynny, mae hwn bellach yn fater i'r Heddlu.

Nodwyd

4. Adroddiad Ariannol

Trafododd CH y cyfrifon a gyflwynwyd o'r blaen ar gyfer Mawrth 2015, ac esboniodd fod y ffigurau'n dangos amrywiaeth negyddol o £43k yn erbyn y gyllideb, ac esboniodd fod masnachu cyffredinol yn dangos diffyg o £61k yn erbyn y gyllideb. Mae cyflogau uchel yn y Bar a staff sy'n cael eu talu gan SIA mewn Digwyddiadau, ymysg y ffactorau sy'n cyfrannu at hyn, ac nid oes modd i ni eu hosgoi.

Nodwyd

Darparodd CH y diweddaraf, gan esbonio bod ein Harchwilwyr wedi bod ar y safle dros y pythefnos diwethaf i wneud gwaith ar gyfrifon 2012/13 a 2013/14. Yn gyffredinol, maent yn fodlon â'r canlyniadau, ond rydym yn aros am lythyr o gefnogaeth gan y Brifysgol. Mae JG wrthi'n dilyn hyn i fyny.

Nodwyd

Holodd PC a oedd yr ochr Fasnachol yn golygu mwy o risg strategol; gyda'r diffyg fel y mae, ydyn ni'n credu y gallwn droi'r gornel, ac os na allwn ni, oes yno unrhyw resymau pam ein bod ni'n gwneud y pethau hyn?

Ymatebodd CH drwy ddweud eu bod yn dal i fod yn y broses o fynd drwy'r ffigurau ar gyfer Dawns yr Haf, ond gyda dim ond pythefnos o fasnachu'n weddill, teimlai na fyddai hyn o fewn ein cyrraedd.

Esboniodd JDE y byddai hyn yn rhan o drafodaeth ehangach yn nes ymlaen yn y cyfarfod dan eitem 8 ar yr Agenda. Aeth JDE ymlaen i esbonio ymhellach, diben y Swyddogion Etholedig a'r drefn o ran yr ochr Fasnachol a'r Elusen.

5. Adroddiad Gwasanaethau'r Aelodaeth

Gofynnodd JDE i AM ac AE adael yr ystafell, ac aeth GB ati i gymryd cofnodion. Cynhaliwyd trafodaeth ynglŷn â Rheolaeth Gwasanaethau'r Aelodaeth. Amlinellodd JG gŵyn a wnaed yn erbyn AM, sy'n cael ei archwilio ar hyn o bryd gan adran Adnoddau Dynol y Brifysgol, a byddant yn adrodd yn ôl yn fuan.

Gofynnwyd i'r Swyddogion Etholedig i adael yr ystafell, wedyn JG, ac aeth y drafodaeth yn ei blaen.

Gwahoddwyd JG yn ôl, parhawyd â'r drafodaeth a rhoddwyd cyfeiriad.

Gofynnodd EH am adolygiad mewnol wedi'i gynnal yn allanol.

Gweithredu – JG i gysylltu ag UCM

6. Canlyniadau'r Arolwg Staff

Cyflwynodd JG y canlyniadau o'r arolwg staff. Gofynnwyd am gael yr adroddiad llawn, gan gynnwys y sylwadau, wedi'i ddosbarthu ymysg yr holl Ymddiriedolwyr, a bod hyn yn cael ei wneud bob tro ar gyfer arolygon yn y dyfodol.

Gweithredu - JG

7. Adroddiad ar Gasgliadau Adroddiad UMPA

Gofynnwyd i JG adael yr ystafell. Cyflwynodd EH ei chanfyddiadau i'r Bwrdd, a chymeradwyodd y Bwrdd yr argymhellion a amlinellwyd yn yr adroddiad yn unfrydol.

Diolchodd JDE i EH am ei hamser wrth fynd ati i gynnal yr ymchwiliad.

8. Adroddiad Grŵp Tasg Digwyddiadau UMPA

Yn dilyn cyfarwyddiadau gan y Bwrdd, ffurfiwyd Grŵp Tasg Digwyddiadau, a chyflwynwyd yr argymhellion canlynol:

- i a. Cael cwmni allanol i redeg Dawns yr Haf er mwyn trosglwyddo'r risg ariannol ac amser y staff o'r digwyddiadau hyn, e.e. Bierkeller, y Glas, Dawns Fai - **Cymeradwywyd**
- i b. Darparu adloniant arall yn fewnol drwy system bwyllgorau er mwyn gwneud ein digwyddiadau'n atebol i fyfyrwyr a defnyddio'r dalent sydd ymysg corff y myfyrwyr, megis Dawns y Gaeaf, Dawns y Graddedigion, Nosweithiau Ffilm, Cwis, Nosweithiau Cymdeithas, Mic Agored, a.y.b. **cafwyd trafodaeth i wneud y pwyllgor hwn yn llai ffurfiol a chreu model sy'n bodloni'r Bwrdd i gynnwys cymaint o Staff Myfyrwyr â phosib.**
- ii. Byddai ffurfio pecynnau y gellid eu gwerthu i glybiau/cymdeithasau/grwpiau o fyfyrwyr yn annog myfyrwyr i logi'r Undeb ar gyfer eu digwyddiadau eu hunain – **Cymeradwywyd**
- iii. Byddai ffurfio pecynnau y gellid eu gwerthu i fyfyrwyr yn annog myfyrwyr i fynychu digwyddiadau yn yr Undeb – **Cymeradwywyd**
- iv. Dylai'r Picture House barhau i fod yn fan diogel (lle bo hynny'n bosib) - **Cymeradwywyd**
- v. Dylai Marchnata a Chyfathrebu fod yn bennaf gyfrifol am drefnu cyhoeddusrwydd ar gyfer digwyddiadau, felly dylid diddymu'r cyfrif Facebook unigol. Dylai Marchnata a Chyfathrebu hefyd greu taflenni a chalendrau unigol ar gyfer digwyddiadau cyffredinol – **Cymeradwywyd**
- vi. Mae'r gweithgor yn argymhell buddsoddiad lefel isel mewn seddi toiledau, paent a theils ar gyfer y nenfwd – **Cymeradwywyd**
- vii. Dylid ffurfio Pwyllgor Adloniant. Bydd hwn yn bwyllgor o fewn strwythur Masnachu AUGS Trading Ltd. a chaiff ei gadeirio gan y Rheolwr Gyfarwyddwr – **Cymeradwywyd**
- viii. Dylai'r Pwyllgor Adloniant gwrdd bob mis – **Cymeradwywyd**
- ix. Y pecynnau i'w gwerthu yn y dderbynfa gyda chymorth cydlynwyr – **Cymeradwywyd**
- x. Dylai cylch gorchwyl y Pwyllgor Etholiadau gynnwys:
 - Trafod rhaglenni a chynnwys
 - Cymeradwyo rhaglenni a chynnwys
 - Gosod cynllun gwaith y 2 Gydlynnydd
 - Ystyried ceisiadau mawr gan fyfyrwyr / cwmnïau allanol am gynnal digwyddiadau yn yr Undeb (cyfeirir at y rhain fel y digwyddiadau Aur dan y cynllun pecynnau)
 - Bydd y pwyllgor yn gosod cynnwys a phrisiau'r pecynnau

- Goruchwyllo llif gwaith rhwng Digwyddiadau, Barrau a Marchnata i sicrhau dilyniant a chydweithrediad
- Cydlynwyr a/neu Mat i fod yn gyfrifol am y berthynas allanol.

Cymeradwywyd

- xi.** Bydd y Pwyllgor Adloniant yn adrodd yn ôl i Gyfarfod y Rheolwyr -

Cymeradwywyd

- xii.** Caiff y Pwyllgor Adloniant ei wasanaethu gan aelod staff - **Cymeradwywyd**

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â rôl y Cydlynnydd Digwyddiadau a gofynnwyd i'r Bwrdd bleidleisio ar ddiddymu'r rôl.

O blaid: 6

Yn erbyn: 0

Ymatal: 1

Mae'r cytundeb sy'n bodoli ar hyn o bryd ar gyfer y Cydlynnydd Digwyddiadau i gael ei ddarparu, ynghyd â gwybodaeth am ein proses diswyddo.

Gweithredu - JG

9. Cynnydd yn y nifer o Ymddiriedolwyr Allanol

Cymerodd GB drosodd fel Cadeirydd, a gofynnodd i JDE esbonio ei resymau dros gynyddu'r nifer o Ymddiriedolwyr Allanol i 5. Aeth JDE ymlaen i esbonio, gyda sefydlu Is-bwyllgorau newydd, y byddai disgwyliaid a dyletswyddau Ymddiriedolwyr Allanol yn cynyddu. Cynhaliwyd trafodaeth bellach o amgylch sicrhau bod yr arf archwilio'n cael ei ddefnyddio er mwyn sicrhau ein bod yn penodi'r ymgeiswyr angenrheidiol.

Cytunodd y Bwrdd ar hyn

10. Adroddiad ar yr Arolwg Staff

Dychwelodd JDE i'r Gadair a gofynnodd i JG gyflwyno canlyniadau o arolwg 'Gofynion Mawr'. Esboniodd JG ei fod yn siomedig â lefel yr ymateb a gafwyd, a chynhaliwyd trafodaeth ynglŷn ag a fyddai'n fwy buddiol i gynnwys mwy o gwestiynau yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfirwyr mae'r Brifysgol yn ei gynnal.

Nodwyd

11. Cynllun Strategol Rhyngwladol UMPA

Cymerodd GB drosodd fel Cadeirydd, a gofynnodd JDE i gyflwyno ei bapur. Esboniodd JDE gynnwys yr adroddiad a gyflwynwyd ganddo o'r blaen, gan bwysleisio pa mor bwysig oedd hi i UMPA fabwysiadu cytundeb â'r Swyddfa Ryngwladol a sicrhau ymgysylltiad ein haelodau rhyngwladol.

Cytunodd y Bwrdd ar hyn

12. Argymhellion y Pwyllgor Cyflogaeth a Chydnabyddiaeth Ariannol

Aeth JDE yn ôl i'r Gadair a gofynnodd i PC esbonio'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Cyflogaeth a Chydnabyddiaeth Ariannol i'r Bwrdd.

13. Adroddiad y Prif Weithredwr